

Pris: 50c

Papur Pawb

Ionawr 2013 Rhif 385



tud 3
Pobl a Phethe

tud 4/5/8 a 9
Ysgolion

tud 10
Y Gair Olaf

tud 12
Chwaraeon

Y gymuned yn dathlu – wrth i siop y pentre baratoi i ailagor...

Mae un o'r mannau mwyaf adnabyddus i ymwelwyr dorri siwrnai yng ngogledd Ceredigion sydd hefyd yn gyrchfan poblogaidd i bobl leol, yn paratoi i ailagor yn y Flwyddyn Newydd – ar ôl ennill cyllid gan gynllun Pentref SOS y Gronfa Loteri Fawr.

Bu cefnogwyr, gwirfoddolwyr a darpar-siopwyr yn ymuno â thîm y prosiect yng Nghaffi Cletwr, Tre'r Ddôl, ger Aberystwyth i ddathlu'r grant £45,000, gyda £2,000 yn ychwanegol gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, mewn parti Nadolig ddydd Sul 16 Rhagfyr yn yr hyn a fydd, cyn bo hir, yn siop gymunedol newydd.

Gwnaethpwyd cais am gyllid gan Gwmni Cymunedol Cletwr, a sefydlwyd yr adeg yma y llynedd, ar gyfer prosiect pilot - Siop Cynfelyn - i agor y siop a chaffi bach i asesu'r galw wrth i gynlluniau ar gyfer prosiect mawr, gan gynnwys ailagor yr orsaf betrol ei hun, gael eu cwblhau.

Yn y digwyddiad codi arian 16 Rhagfyr bu mwy na 250 o'r 500 o bobl leol sy'n cefnogi'r prosiect – a fydd yn ailfuddsoddi ei holl elw yn y gymuned – yn achub ar y cyfle i gael gwybod mwy am ddyfodol y prosiect.

“Mae'n wych clywed bod ein cais wedi llwyddo ac mae'n deyrnged i ymrwymiad a haelioni pawb sydd wedi bod wrthi y byddwn ni'n gallu cychwyn ar y prosiect uchelgeisiol hwn,” meddai Shelagh Hourahane ar ran y grŵp.

“Rŵan mae'r gwaith caled yn dechrau - yn barod rydym yn archebu cyfarpar newydd i'r siop ac mae ein tîm o wirfoddolwyr yn ymbaratoi i helpu i ail-baentio ac ailwampio'r siop yn llwyr. Rydym yn gobeithio agor y drysau am y tro cyntaf ym mhen ychydig dros ddau fis,” meddai hi.

Mae AC Ceredigion Elin Jones wedi addo ei chefnogaeth i brosiect Siop Cynfelyn: “Dw i eisoes wedi cwrrd â chynrychiolwyr o'r grŵp ac mae ganddyn nhw gynlluniau hynod gyffrous i ddarparu gwasanaeth gwerthfawr iawn i'r gymuned - gyda holl elw'r fenter gymunedol hon yn cael ei ailfuddsoddi er budd yr ardal leol.

“Dw i'n edrych ymlaen at gefnogi'r fenter gymunedol hon dros y misoedd nesu wrth iddyn nhw symud eu cynlluniau ymlaen i ailagor y siop a'r caffi a dw i'n dymuno pob llwyddiant iddyn nhw i'r dyfodol”.

Siop Cynfelyn



Mae arolygon a gynhaliwyd gan Gwmni Cletwr dros y 12 mis diwethaf yn dangos bod gwir angen am y safle pwysig hwn, sydd nid yn unig yn gwasanaethu'r gymuned ond hefyd yn un o'r lleoedd traddodiadol i yrwyr dorri eu siwrnai wrth ymweld â Cheredigion. Mae'r model busnes lle mae cymunedau'n rhedeg eu siopau eu hunain yn mynd o nerth i nerth ledled y DU.

Ac yn barod, mae mwy nag 80 o bobl sy'n byw yn y plwyf – sydd â phoblogaeth o ychydig dros 600 – wedi addo i helpu yn ystod y cyfnod paratoi ac i redeg y siop unwaith y bydd yn barod am fusnes.

Mae'r amcan hirdymor yn cynnwys gorsaf betrol fodern sydd wedi'i hailwampio'n llwyr, caffi croesawus deniadol a siop â stoc gyflawn, gan ddarparu'r lle delfrydol i ymwelwyr stopio'n ogystal â gwasanaethau hanfodol i bobl leol gyda gwybodaeth i dwristiaid ac arddangosfeydd am dreftadaeth yr ardal.

“Mae bron blwyddyn wedi mynd heibio bellach ers i ni gymryd y camau cyntaf i weld a fyddai digon o gefnogaeth i ailagor safle Cletwr fel busnes a reolir gan y gymuned,” meddai Shelagh. “Rydyn ni wedi cael ymateb gwych gan bobl leol, rhoddion ariannol sydd wedi'n helpu i gychwyn arni a digwyddiadau codi arian sydd wedi'u cefnogi gan lawer o bobl. Erbyn hyn, rydyn ni'n edrych ymlaen at ddechrau gwreiddu'r breuddwyd – menter a reolir gan y gymuned.”

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781312
Eglwysfach/Ffwrnais:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont Siân Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones Enid Gruffudd; Susan Lewis: Gwenllian Parry-Jones	832433 832093 832433 832093 832448 (01654) 781312
Cadeirydd:		
Is-gadeirydd:		
Ysgrifennydd:		
Trysorydd:		
Tanysgriadiadur:		
Hysbysebion:		
Plygu'r Papur:		
Dosbarthwyr:		

Cyhoeddi gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru – Bwrdd y Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyr

Ydych chi'n cofio darllen y nofel Teulu Bach Nantoer?

Annwyl Ddarllenwyr,

Rydym wrthi'n paratoi rhaglen fydd yn cael ei darlledu ar S4C ddechrau'r haf i nodi canmlwyddiant cyhoeddi **Teulu Bach Nantoer**. Yn ôl pob tebyg, y nofel hon gan Moelona, a gyhoeddwyd yn 1913, yw'r nofel fwyaf poblogaidd erioed i blant yn y Gymraeg. Ar gyfer ein rhaglen yr ydym yn chwilio am bobl ddarllenodd y nofel pan yn ifanc – neu yn hŷn! Os ydy chi'n un o'r miloedd ddarllenodd y nofel ac am rannu eich atgofion a fydddech chi mor garedig â chysylltu â ni naill ai drwy lythyr, ebost, ffôn neu ar facebook? Os nad ydy chi am gymryd rhan yn y rhaglen ond yn barod i rannu eich atgofion mae croeso i chi hefyd i gysylltu – bydd yn braf clywed mwy am y nofel ac atgofion pawb ohoni.



Os hoffech ddarllen y nofel eto neu ei darllen am y tro cyntaf, mae yna gopi ar gael ar wefan **Llyfrau o'r Gorffennol**. www.llyfrau.org/

Yn gywir,

Catrin M.S. Davies a Dinah Jones
Unigryw, Tŷ Goronwy, 32 Heol y Wig
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2LN
Rhif ffôn: 07804 260042
Ebost: post@unigryw.com
Facebook: Teulu Bach Nantoer

Mathew Davies
Plymio a Gwresogi

07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio
Nwy • Olew • Tanwydd Solet • Solar

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Dyddiadur

Ionawr

- Bethel 5 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
- Neuadd Goffa 2y.p
Brodwaith (Jean Eckland)
- Bethel 2 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth 10 Gordon
Macdonald
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
- Neuadd Goffa 7.30
Merched y Wawr
'Patagonia' (Ceri Gruffudd)
- Bethel 10 Gweinidog (C)
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 5 Parch Judith
Morrisl
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol
Weddi

Chwefror

- Bethel 10 Gwasanaeth Teulu
Nasareth 10 Bugail (C)
Rehoboth 2 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid

Noson Cwis yn y Stafell Haearn

19 Ionawr, 2013 – 7-30pm
£5 am dîm o 4
I logi bwrdd ffoniwch
Chris 01654 781312/
neu Roy 01654 781343

Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr Papur Pawb

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.



Golygyddion y rhifyn hwn oedd Helen a Ceri. Golygyddion mis Chwefror fydd Medi, Llio a Mared (832725; harryamedia@btinternet.com), gydag Elgan yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 1 Chwefror, a bydd y papur ar werth ar 8 Chwefror.

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658



DIGWYDDIADAU MORLAN:

- C21 yn Morlan (7.30, 9 a 23 Ionawr)
- Capel – arddangosfa o ffotograffau gan Marian Delyth (hyd 15 Chwefror)
- Noson Gwis Morlan (7.00, 16 Ionawr). Cyfle i dimau o gapeli ac eglwys lleol gystadlu am Darian Her Morlan. Dewch i gefnogi neu gystadlu!

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

CROESO CYNNES I BAWB!
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Y Ffair Aeaf

Llongyfarchiadau eto eleni i Rowland a Iolo Davies, Dolclettwr, Tre'r Ddôl am ennill y Brif Bencampwriaeth yn Ffair Aeaf y cigydd William Lloyd Williams, Machynlleth yn ddiweddar. Daethant i'r brig gyda pâr o ŵyn Beltex / Texel yn yr adran Pencampwriaeth yr Ŵyn Garcas.

Llongyfarchiadau hefyd i Holly Rees, Gwarcwm, Taliesin a ddaeth yn drydydd y adran Carcas Cig Eidion yn yr un Ffair Aeaf.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â thrigolion yr ardal sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis diwethaf.

I Jo Wareing, Braichgarw sydd wedi colli mam ac i Mick Fothergill, Tal-y-bont yntau wedi colli ei fam.

Hefyd i Sue Dowsett, Maes y Felin, Tal-y-bont ar golli ei thad.

Croeso

Croeso cynnes i Julie a David a symudodd i fyw i Riwlas, Tre Taliesin ym mis Rhagfyr.

Cydymdeimlad

Rydyn ni'n cydymdeimlo'n fawr ag Ann Humphreys, Llys-teg, Tre Taliesin a'r teulu ar ôl colli ei gŵr Emrys Humphreys ym mis Rhagfyr. Colled fawr i'r fro gyfan.

**Sam yn serennu**

Bydd mis Ionawr yn brysurach nag arfer i Sam Ebenezzer, Maes y Felin, Tal-y-bont. Bydd Sam yn chwarae'r brif ran ym mhantomeim blyneddol Canolfan y Celfyddydau, sef Aladin. Hefyd mae Angharad Evans, Dôl Pistyll, Tal-y-bont yn aelod blaenllaw o'r cast. Bachwch ar y cyfle i weld y sioe hwyliog yma sydd ymlaen tan Ionawr 19. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.

Pobl a Phethe



Canu Calennig

Daeth teulu'r Gwynfryn, Tal-y-bont heibio ar frys a hithau ar fin cyrraedd hanner dydd i ddymuno blwyddyn newydd dda eleni. Diolch i Heledd, Elinor, Gethin a Rhodri am alw heibio.

Ar y Ffordd

Llongyfarchiadau mawr i Gwion Evans, Tanllan, ar basio ei brawf gyrru yn ystod y mis diwethaf.

Penblwydd Hapus

Penblwydd hapus a phob dymuniad da i Mrs Ann Watkin, Brynawel, Tre Taliesin, sy'n dathlu ei phenblwydd yn 95 oed ar 25 Ionawr.

Dathlu'r Deunaw

Penblwydd hapus i Anwen Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn ddeunaw.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i dadcu a nan, sef Gareth a Bev Pritchard, Tre'r ddol ar enedigaeth wŷr, Liam James Taylor.

Cydymdeimlad

Cydymdeimladau i Ruth, Paul, a Glenys ar colli eu mam, Mrs Winifred Newell, Tŷ Gorsaf Glandyfi. Bu'n wraig am 61 o flynyddoedd i'r diweddar Parch Aubrey Newell. Cynhaliwyd yr angladd ar 21 o fis Rhagfyr.

Dyweddio

Dymuniadau gorau i Catrin Jenkins a Sion Glyn, Y Llew Du, Tal-y-bont ar eu dyweddiad.

Llongyfarchiadau hefyd i Mari Davies, Doleifion a Gareth Hughes, Alltddu, Tregaron ar eu dyweddiad ddiwedd mis Rhagfyr.

Pob lwc iddynt.

Diolch

Dymuna Mrs Rosina Jones (Pant-haul, Tal-y-bont a'r Deri. Llwyn Afallon, Aberystwyth gynt) ddymuno'n dda i'w holl ffrindiau yn yr ardal gan ddiolch yn ddiffuant am eu cyfarchion Nadolig a Blwyddyn Newydd. Nid oedd yn anfon cardiau eleni ond yn cyfrannu at Hospis yn Llandudno yn lle hynny.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Ann Ovens, Tan y Cae, Tal y Bont ar ei wyres cyntaf Edith Gwen. Merch i Helen ac Innes Heron Crud yr Awel, Taliesin.

Llongyfarchiadau hefyd i Vic a Roy Bamford, Felin y Cwm, Ffwrnais ar enedigaeth eu wyres cyntaf Rosa, merch i Heather a Duncan.

Y Coleg Cymraeg

Dymuniadau gorau i Dr Hywel Griffiths, Y Garth, Tal-y-bont ar ei benodiad yn is-olygydd newydd cyfnodolyn y Coleg Cymraeg, Gwerddon.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Ben a Sarah, Temperance Cottage, Tre Taliesin ar enedigaeth eu mab Sylvan ar 13 Rhagfyr 2012.

Hefyd llongyfarchiadau i Tara Bradley a'i phartner Neil, a gweddill y teulu ym Maes y Deri ar enedigaeth Issac a anwyd ar 21 Rhagfyr.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol.

Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Y Clerc, Cyngor Cymuned Llangynfelyn
Blaenddôl, Tre'r-ddôl, Machynlleth, Powys SY20 8PL

erbyn **dydd Iau, 31 Ionawr 2013** fan bellaf

Cylch Meithrin Tal-y-bont



Warchodfa Natur yr RSPB yn Ynys Hir

Parti Calan Gaeaf



Cyngerdd Nadolig y Cylch Meithrin



Sion Corn ym mharti Nadolig y plant

Ysgol Sul Bethel



Ysgol Llangynfelyn



Ffarwelio â Miss Foulkes



Sinderela



Trip i weld Sion Corn



Cyflwyno sic i Water Aid

Ysgol Llangynfelyn

Ffarwelio

Ar ddiwedd y tymor bu rhaid ffarwelio â Miss Wendy Foulkes o'i swydd fel Cynorthwydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Cyflwynwyd tusw o flodau a thalebau siopa iddi fel rhodd o'r rhieni a'r plant. Ni fyddwn yn dweud hwyl fawr yn llwyr i Miss Foulkes gan ei bydd dal i weithio yn y Clwb Brecwast ac yn casglu'r arian cinio. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Tal-y-bont.

Pantomeim Trywerynws

Aeth Dosbarth Miss Jones i Neuadd Goffa Tal-y-bont i weld 'Trywerynws', pantomeim blynyddol Cwmni Mega. Mwynhaodd y plant y pantomeim yn fawr iawn. Diolchwn i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am dalu am y perfformiad i'r plant.

Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr

Cymerodd y plant hŷn, ac ambell frawd a chwaer iau oedd yn y gynulleidfa, ran yng Ngwasanaeth Nadolig Merched y Wawr Tal-y-bont yng nghapel Rehoboth, Taliesin cyn y Nadolig. Canodd y plant ddwy gân Nadoligaidd.

Sinderela

Ar y 18fed o Ragfyr yn Neuadd Llanfach, perfformiodd y plant eu sioe Nadolig sef Sinderela. Roedd y neuadd yn orlawn gyda rhieni, ffrindiau a chymdogion yn cefnogi'r plant. Mwynhaodd y plant actio, canu a dawnsio yn fawr iawn. Ar ôl y perfformiad aeth pawb nôl i'r ysgol am baned a mins pei. Diddanodd y plant sy'n cael gwersi offerynnol y gynulleidfa. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r lluniaeth ac am addurno'r neuadd a'r ysgol i greu nawws Nadoligaidd hyfryd.

Sinema

Y diwrnod ar ôl perfformio yn Sinderela, aeth y plant a'r staff i'r sinema i weld y ffilm Nadolig, Arthur Christmas. Roedd yn ffilm arbennig o dda. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu am y ffilm a'r bws.

Cinio Nadolig

Cafwyd ein Cinio Nadolig ar ôl dod nôl o'r sinema. Roedd yn flasu iawn a diolchwn yn arbennig i staff y gegin yn Ysgol Tal-y-bont am ei goginio. Diolchwn hefyd i Mrs Linda Hicks, cyn-gogyddes Ysgol Llangynfelyn am gyfannu'r craceri ar gyfer y cinio.

Trip i weld Siôn Corn

Aeth Dosbarth Mrs Nemes ar Drên Bach Cwm Rheidol i weld Siôn Corn. Roedd y daith o Aberystwyth i Gwm Rheidol yn gyffrous iawn a daeth Siôn Corn ar y trên i siarad gyda'r plant a chafodd pawb anrheg i fynd adref. Ar ôl cyrraedd nôl i'r orsaf cafodd y plant sudd a bisgedi yng nghwmni Siôn Corn a'i gorachod. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu am y daith.

Gwasanaeth Diwedd Tymor

Cynhaliwyd gwasanaeth diwedd tymor yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont i ddymuno Nadolig llawen i holl blant a staff Ysgol Tal-y-bont, Ysgol Llangynfelyn ac Ysgol Craig yr Wylfa. Yn y llun gwelir plant o'r tair ysgol yn cyflwyno sic o £120 i Eleri Barder, Swyddog Ieuencid Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuencid Menter Gyd-enwadol Gogledd Ceredigion ar ran WATERAID. Yn y llun gwelir dau lun arbennig, sef rhoddion i Ysgol Tal-y-bont gan Agness Jere, athrawes o Malawi a fu yn ymweld â'r ardal yn ddiweddar.



Cyfnod Cyffrous i'r Cylch Meithrin!

Cynhaliwyd Parti Calan Gaeaf blynyddol y Cylch Meithrin ar nos Fercher, y 31 o Hydref rhwng 6 a 7.30 o'r gloch. Mynychodd torf o greaduriaid rhyfedd ac arswydus y Neuadd Goffa ar noson oer a gwlyb. Ar ôl y chwarae a dawnsio cafwyd cŵn poeth i adfer lefelau egni. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr iawn er fod rhai o'r oedolion wedi cael braw cystal oedd gwisgoedd y plant! Rhaid diolch yn fawr i'r cwmnïau lleol lu a gyfranodd rhoddion mor hael ar gyfer y raffl ac i bawb a wnaeth helpu gyda'r trefniadau ac wrth gwrs ymgymryd â'r gwahanol ddyletswyddau ar y noson. Estynnir diolch hefyd i Mair a Garmon Nutting am feirniadu'r gystadleuaeth pwmpen a gwisg ffansi.

Ar ddiwrnod arall gwlyb ac oer aeth plant y Cylch i warchodfa natur yr RSPB yn Ynys Hir. Cafwyd llawer o hwyl gyda Monica Lloyd Williams, Moelgolomen, yn tywys y criw o amgylch y warchodfa. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn ymgymryd â'r gweithgareddau hwyl ac addysgiadol oedd wedi paratoi ar eu cyfer – diolch yn fawr iawn i chi Monica.

Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig y Cylch Meithrin ar nos Lun, 17 o Ragfyr am 6.30 o'r gloch yn y Neuadd Goffa. Cafwyd noson arbennig gyda'r plant bach yn perfformio'r stori'r geni ac yn diddanu'r gynulleidfa lu gyda chanu llon a bywiog. Hyn yn adlewyrchiad pellach o lwyddiant y Cylch Meithrin drwy ymdrechion ddi-flino yr arweinyddion yn natblygiad y plant bach. Rhaid diolch yn ddiffuant i gwmnïau lleol a wnaeth gyfrannu'n hael i'r raffl ac i Janet Jones, Llwynglas am gyfrannu'r gacen Nadolig arbennig fel gwobr. Diolch i bawb a wnaeth gymryd at y gwahanol ddyletswyddau ac am eu cyfraniad at lwyddiant y noson.

Er ei fod yn adeg prysur iawn iddo chwiliodd Sion Corn yr amser i alw ym mharti Nadolig y plant ar fore Iau, 20 o Ragfyr yn y Neuadd Goffa. Roedd wynebau'r plant yn bictiwr wrth iddynt gwrdd â'r dyn ei hun o Begwn y Gogledd!

Yn y flwyddyn newydd dymunwn yn dda i Tyler, Clarice a Sophie yn Ysgol Tal-y-bont ac i Ava yn Llangynfelyn – pob lwc i'r plantos bach! Estynnir croeso gwresog i Benji, Maizie, Osian a Bledwyn i deulu'r Cylch!

Hoffai'r plant, staff, rhieni a Phwyllgor y Cylch Meithrin ddiolch o galon i bawb o'r gymuned leol am eu cefnogaeth tryw a pharod yn ystod y flwyddyn a aeth heibio sy'n cyfrannu at barhad a ffyniant y Cylch. Rheswm mawr am lwyddiant parhaus y Cylch wrth gwrs yw'r staff ymroddgar a gweithgar. Mae'n bleser ymweld â'r Tŷ Sbri a gweld pa mor hapus a bodlon mae'r plant bach wrth gychwyn ar ei bywyd addysgiadol – diolch yn fawr iawn i Anti Shan, Anti Ellyw, Anti Anwen ac Anti Gaynor.

Non Jones

Ysgol Sul Bethel

Cafodd llifogydd Mehefin Tal-y-bont gryn ddylanwad ar sgript stori'r geni a berfformiwyd gan Ysgol Sul Bethel ar noswyl Nadolig. Roedd dŵr yn rhan amlwg o'r stori gyda'r bugeiliaid wedi hen flino ar fod ar y brynau ymhell o'u teuluoedd am amser hir. Ac ar ben y cyfan roedd traed y defaid yn dioddef o 'foot rot'! Roedd y pentrefwyr hefyd wedi gwlychu ar eu crwyn wrth deithio i Fethlehem i gael eu cofrestru.

Ond anghofwyd am hyn i gyd wrth iddynt gyrraedd y llety ym Methlehem.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd eitemau gan driawd o delynoriaid, unawd fflwiwr a lleisiol, darlleniadau a pharti canu oedolion.

Diolch i bob un a gymerodd ran gan lwyddo unwaith yn rhagor i gyfleu gwir neges y Nadolig i ni i gyd.

Diolch hefyd i'r tîm o ddeg o wirfoddolwyr sy'n helpu'n yr Ysgol Sul trwy'r flwyddyn.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn am 11.15 – 12.15 ar 13 Ionawr. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhaliwyd dau wasanaeth llwyddiannus yn yr Eglwys dros gyfnod y Nadolig.

Ar nos Wener, 21 Rhagfyr cafwyd gwasanaeth 7 llith a charol, dan ofal Y Parchg Andy Herrick, gyda chymorth Mrs Lona Jones. Darllenwyd y llithoedd gan Lona, Emyr Davies (Warden) ac Eirlys Huws. Cafwyd eitemau hefyd gan ddau o blant dawnus y pentref, sef Oisín Ludd a Caiomhe Melangell. Roedd 25 yn bresennol, a chasglwyd £100 tuag at waith elusennol yn Zambia.

Ar fore Nadolig, am 8-00 y bore, cafwyd gwasanaeth y Cymun Bendigaid, eto dan ofal Y Parchg Andy Herrick, gyda 22 o bentrefwyr yn bresennol. Roedd hi'n hyfryd croesawu Gwenda Wallace o Gapel Madog a'i chlywed yn canu deuaud gydag Andy. Yr organyddes yn y ddau wasanaeth oedd Mrs Elisabeth James.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Cyfarfu'r Chwiorydd yn festri Capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 11 Rhagfyr, ac estynnodd Myfanwy Rowlands groeso i'r Parchedig Richard Lewis, Bow Street, a ddaeth atom ar fyr rybudd. I ddechrau, gwrandawyd ar garol Plygain cyn iddo ddarllen darn o'r enw 'Gyrru'r gwyddau' a oedd yn sôn am yr hen arferiad o gerdded gwyddau o Gymru i farchnadoedd yn Lloegr ers talwm, ac yna ddarn o hunangofiant Elfed ynglŷn â dydd Nadolig. Mae gan Mr Lewis ddiddordeb mewn casglu pethau sydd â chysylltiad Cymreig, yn enwedig hen lyfrau ac addurniadau.

Darllenodd ddarnau allan o amryw o'r llyfrau a oedd yn ymwneud â'r ardal yma, a daeth â rhai o'r addurniadau i'w dangos. Gwrandawyd ar garol plygain arall i gloi. Diolchwyd iddo am brynhawn difyr iawn gan Ann Jenkins, yna mwynhawyd te a mins peis wedi eu paratoi gan Mai Leeding a Myfanwy Rowlands.



Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, ar nos Sul, 16 Rhagfyr. Daeth cynulleidfia deilwng ynghyd i wrando ar gyfres o eitemau cerddorol ac ar lafar gan fudiadau'r ardal. Roedd y casgliad eleni yn mynd tuag at waith Cymdeithas Clefyd y Galon yng Ngheredigion, ac ar derfyn y gwasanaeth cafwyd araith fer gan Mr Glan Davies, Ysgrifennydd Cymdeithas Clefyd y Galon yn Aberystwyth a'r cylch, a chyflwynwyd sic am £273 iddo. Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Wyn Morris.

Torri Ffenestri'r Neuadd

Torrwyd dau baen ffenest yn Neuadd Goffa Tal-y-bont cyn y Nadolig, ac roedd rhywun hefyd wedi ceisio tynnu'r bin sbwriel sy'n sownd i'r wal. Deallwn erbyn hyn fod yr heddlu'n cynnal ymchwiliadau a bod enw troseddwr honedig wedi ei gyflwyno iddynt. Mae'n debyg fod rhywun sy'n byw yn y pentref wedi ffraeo â'i gariad ac wedi cael gwared ar ei rwystredigaeth trwy dorri'r ffenestri. Dyn a'n helpo os bydd mwy o bobl yn ffraeo a'u cariadon ac yn dewis dial ar ffenestri'r Neuadd yn y modd hwn. Pam ddylai'r gymdeithas dalu am fod rhai pobl yn methu cadw rheolaeth ar eu tymer?



Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:
01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (inc. registered in England). Registered Office: Tollymore Road, St. David's Park, Carmarthen SA31 3BQ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

Cymdeithas Alzheimer's

Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grŵp codi arian, bod yn gyfaill, a, gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli, mae yna rywbeth i bawb

Mae 40,700 o bobl yn dioddef o ddementia yng Nghymru ac mae'r ffigwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli
ar **01269 845953 / 07715 802632**
neu e-bostio:
gillian.morgan@alzheimers.org.uk

Elusen gofrestredig rhif 296645

argraffu da am bris da



Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yolfaf.com
01970 832 304 www.yolfaf.com

Teyrnged

Emrys Humphreys: Teyrnged Cymydog

O fewn deuddeg awr i mi symud i fyw i Dre Taliesin dros chwe blynedd ar hugain yn ôl, roedd Emrys eisoes wedi cyflawni'i gymwynas gyntaf â fi. Cwmpo coeden o flaen y tŷ! Dim ond rhyw sôn wrth fynd heibio fel petai wnes i y byddai'n well hebddi – ond roedd hynny'n ddigon i Emrys, cyn i mi godi drannoeth doedd dim byd i'w weld o'r goeden fach.

Dyma'r gymwynas gyntaf o gymwynasau dirifedi dros y blynyddoedd. Doedd dim pall ar ei barodrwydd i helpu. "Ryden ni yma i helpu ein gilydd," meddai'n aml ac fe lynodd yn driw wrth y geiriau hynny bob amser. Roedd yn anodd talu'r pwyth. Cyn troi rownd byddai Emrys wedi'i ad-dalu'n syth!

Fel cymdogion, mi fyddai a Siân yn colli ei gynghorion parod ar arddio, ei lygad craff yn gwarchoed y tŷ pan fyddwn ni i ffwrdd, ei weld ar ei rawd ar hyd y pentre, y sgwrsio dros y sietyn a'r tynnu coes direidus.

Byddai Emrys wrthi o gwmpas ei ardd (a gerddi sawl un arall) o fore gwyn tan nos a hyfryd o beth yw gallu cofnodi iddo barhau felly tan yn agos iawn ar ddiwedd ei oes. "Gweithio pwt, stopyd pwt" oedd un arall o'i hoff ddywediadau. Mi weithiodd Emrys yn galed ar hyd ei oes – siawns caiff o stopyd pwt yn awr.

MD

Teyrnged i Huw Brynmor Edwards

15 Rhagfyr 1970 - 25 Rhagfyr 2012

Gyda thristwch mawr clywsom am farwolaeth Huw ar ddiwrnod Nadolig. Roedd wedi brwydro'n ddewr gyda'r cyflwr multiple sclerosis ers cyfnod hir. Nid un am gwyno oedd Huw, ond yn hytrach un a oedd yn hoffi jôc a chanu mawr.

Mae ei ddisgrifio fel cymeriad a hanner dim ond yn crafu'r wyneb. Roedd pawb a oedd yn 'nabod Huw gyda hanesion doniol am sut yr oeddynt yn ei adnabod. Hoffai Huw ganu, yn uchel iawn ac yn llawn brwdfrydedd. Yn aml byddai'n canu carolau ar dop ei lais yng nghanol Woolworths. Os welsai Huw chi yn nghanol y stryd, byddech yn cael helo mawr a chàn, a fydd Huw byth yn defnyddio'ch enw llawn, byddai ganddo ffugenw ar bawb.

Ychydig amser ar ôl symyd i fewn i Ddôl Pistyll, daeth cnoc a chanu mawr wrth y drws. Huw oedd yna yn holi "Maaaaaaahôn bach, beth wyt ti'n wneud nôs Wener, dere i helpu ni efo'r Clwb Ieuencid yn y neuadd, dim ond cwpwl o oriau y mis, dim mwy." Pwy alle wrthod Huw!

Roedd plant y Clwb yn meddwl y byd o Huw. Ddim yn aml mae plant yn dod ar draws oedolyn sy'n llawn hwyl, sbort a sbri ac yn fwy direidus na nhw eu hunain. Pan yn chwarae bingo ac yn galw'r rhifau, roedd Huw yn llawn ffeithiau hollol anhygoel a hoffai daflu un neu ddau o rai gwalltgoft at y plant; heb sgript, pob ffaith wedi'i storio yn ddiogel yn ei ben. I'r plant, doedd dim label y salwch MS ar Huw. Ef oedd y person dwl oedd yn chwarae pêl droed gyda nhw, ac yn cynnig syniadau gwallgof ar gyfer gweithgareddau. Ef oedd seren a chalon y Clwb a ffrind i bawb.

Roedd ei weld yn 'helpu' Heulwen tu ôl i'r cownter yn y siop yn werth ei weld. Colled mawr i'r pentref cyfan oedd pan symudodd Huw o Dal-y-bont. Pan glywsom fod angen codi arian tuag at gadair olwyn arbennig i Huw, pleser ac anrhydedd oedd cael helpu. Trefnwyd taith seiclo noddedig gan y Clwb Ieuencid ynghyd â phlant a rhieni'r Ysgol Sul o Aberystwyth i Lanilar ac yn ôl. Roedd yr ymdrech a'r pen ôl tost am dridiau wedyn werth pob ceiniog a godwyd tuag at yr achos. Mi fyddai pob un ohonom wedi ei wneud mil o weithiau eto - i Huw.

Estynwyn ein cydymdeimlad diffuant â Ron, Cynthia, Delyth, Geraint a'u teuluoedd. Roedd Huw yn unigryw a baint mawr iawn oedd ei adnabod ac ei alw'n ffrind.

Catrin Mason



Gyrfa Chwist Sioe Amaethyddol Tal-y-bont

Cynllaliwyd ein gyrfa chwist flynyddol ar nos fercher 19 Rhagfyr. Bu'n achlysur llwyddiannus dros ben gyda 25 a hanner o fyrddau yn llawn o chwaraewyr brwd. Yr M.C. oedd yn cadw trefn ar bawb oedd Glyn Davies, Pantdrain. Braf oedd gweld nifer o blant ifanc ymysg y chwaraewyr, arwydd fod yna ddyfodol i'r achlysur hon. Cafwyd sgwrs a phaned yn ystod yr egwyl a chyfle hefyd i brynu tocyn raffl gan Ann a Marion.

Buddugwyr y noson oeddy canlynol:

Sgor uchaf (Gwydd) Gwyn Morgan (Sir Faesyfed)

Twrci: Eleanor Jones (Llanbryn-mair) Dave Lewis (Aberdyfi)

Cyw iâr: Delyth Ralphs (Penrhyncoch) Dylan Jones (Penrhyncoch)

Cyw iâr: Mair Jones (Pennal) D P Benjamin

Potel o sieri: Tomi Williams a Audrey Evans (Tregaron)

Pwdin Nadolig: Glyn Jones, May Jones, Gwyn Morgan, Dewi Jenkins

Bwrw Allan: Hwytaden: Anwen Davies (Swyddffynnon) Dilwyn Evans (Tynant)

'Miniature' Isaf: Myfanwy James (Tal-y-bont) Dewi Evans (Bow Street)

Dyn/Dynes yn eistedd hiraf: Owain James, Penbanc. Gruff Edwards

Plentyn dan 16: Dewi Davied (Llanrhystud) Ieuan Davies (Swyddffynnon)

Bistro
Gannets

Bywd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth, Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Cylch Cinio Aberystwyth

Yn y flwyddyn newydd beth am ymuno â dynion Cylch Cinio Aberystwyth? Rydym yn cwrdd unwaith y mis ar yr ail nos Wener a mwynhau pryd dau gwr a chwmni gwr gwadd. Yn y gorffennol mae'r gwŷr gwadd wedi sgwrsio am bynciau diddorol megis teithio arfordir Ceredigion a chasglu hen lampau olew. Y gost yw £10.00 y mis ac mae'r Cylch yn cyfrannu'n gyson i elusennau lleol - dros £2000 ers Ionawr 2011. Cadeirydd eleni yw Rees Thomas Bow Street. Os hoffech gael manylion pellach cysylltwch â Richard Davies - ffon 828702, e-bost dickywyn@hotmail.com. Edrych ymlaen at eich cwrdd yn 2013.

Atlas Mawr y Byd

Ar ddechrau blwyddyn newydd dyma lansio atlas Cymraeg newydd! Mae **Atlas Mawr y Byd** yn llawn lluniau anhygoel o bobl, lleoedd a bywyd gwyllt. Dyma atlas sy'n cynnig golwg gyffrous ar y byd heddiw. Ydych chi'n gwybod ble mae'r carnifal mwyaf yn y byd yn cael ei gynnal neu pa ddinas sy'n perthyn i ddau gyfandir? Mae'r atebion i hyn a llawer mwy yn **Atlas Mawr y Byd**! Paratowyd y fersiwn Gymraeg gan Ffion Eluned Owen a Glyn Saunders Jones ac fe'i cyhoeddwyd gan Atebol sy'n gwmni cyhoeddi lleol. www.atebol.com



Ffion Eluned Owen gyda rhai o ddisgyblion Ysgol Gynradd Tal-y-bont yn lansio *Atlas Mawr y Byd*.

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

Ysgol Tal-y-Bont

Sinema

Hoffai'r plant ddiolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu iddynt fynd i'r sinema unwaith eto eleni. Cafodd pawb hwyl wrth wyluo "Arthur Christmas".

Panto Mega

Roedd hi'n braf iawn i weld y pantomeim blynyddol gan Gwmni Mega'n cael ei pherfformio yn y Neuadd Goffa eleni. Roedd "Trywerynws" wedi ei seilio ar fodd Cwm Tryweryn ac fe gafodd y plant dipyn o hwyl yn gwyluo'r action a'r dawnsio. Ac er yr holl gynllwynio a'r troeon trwstan arferol cafwyd cyfle i ddathlu priodas arbennig ar ddiwedd y perfformiad. Diolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ei nawdd hael i'r digwyddiad.

Bags 2 School

Ar ran y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon hoffwn ddiolch i bawb am gyfrannu dillad ac esgidiau ar gyfer y cynllun BAGS 2 SCHOOL. Casglwyd dros 70 cwyd yn tro hwn eto ac edrychwn ymlaen at weld yr un gefnogaeth i'r casgliad nesaf a fydd yn digwydd yn hwyrach yn ystod y flwyddyn. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Cinio Nadolig

Hoffai'r staff a'r plant ddiolch o galon i Mrs Jones a'i staff am ginio Nadolig rhagorol eleni eto. Mae safon y bwyd wedi bod yn gyson dda yn Ysgol Tal-y-bont ers blynyddoedd bellach, fel y mae cenedlaethau o blant yn gallu cadarnhau ac roedd hi'n braf gallu diolch i Mrs Jones wrth i bawb brofi'r bwyd blasus.

Roedd hi'n hyfryd i groesawu Miss Rachel Williams nól i'r ysgol ar y diwrnod hwn i dderbyn rhoddion gan y staff a'r rhieni fel cydnabyddiaeth o'i gwaith arbennig i'r ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Miss Williams bellach wedi ymddiswyddo o'r ysgol a hoffwn ddymuno'r gorau iddi a'i theulu i'r dyfodol.

Cyngerdd

Roedd cael cyfle i weld a chlywed Cerddorfa Ceredigion, Côr Bechgyn Ceredigion a Côr Ieuntyd Ceredigion yn perfformio yng Nghanolfan y Celfyddydau yn brofiad gweith chweil i'r plant eleni eto. Roedd safon y perfformio mor uchel ag erioed ac roedd hi'n braf gweld nifer o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn chwarae rhannau blaenllaw.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Panto'r Ysgol



Rydym yn mawr obeithio fod Siôn Corn wedi ymweld â phawb dros y gwyliau. Ar un adeg roedd hi'n edrych yn annhebygol y byddai'n mynd ar ei daith flynyddol oherwydd iddo fygwth fynd ar streic! Roedd wedi hen flino ar blant haerllug yn gofyn am fwy a mwy o anrhegion ganddo ac fe benderfynodd gymryd hoe a mynd ar wyliau ychydig ddiwrnodau cyn y Nadolig!! Buodd ef, Mrs Corn a rhai o'u cydweithwyr yn chwarae pêl-droed yn Brasil, yn gwyllo cyngerdd bythgofiadwy gan Tom Jones ac Elvis yn America ac yn syffio yn Hawaï cyn

penderfynu mynd yn ôl i Begwn y Gogledd i baratoi'r anrhegion.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r staff am baratoi'r plant ar gyfer y perfformiad arbennig, i'r rhieni am gynorthwyo gyda'r gwisgoedd gwych, i aelodau pwyllgor y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am baratoi'r lluniaeth, i Mr Ieuan Morgan a Phwyllgor y Neuadd a Mr David Jones, Bwlchdyddwyallt am bob cymorth ac i bawb am gefnogi'r ysgol unwaith eto eleni. Roedd hi mor braf i weld y Neuadd Goffa'n llawn dop.



Cinio Nadolig Pensiynwyr Plwyf Llangynfelyn

Cynhaliwyd Cinio'r Pensiynwyr yn y Wildfowler Tre'rddol ar y 12ed o Ragfyr. Eleni derbyniwyd cymhorthdal oddiwrth Age Cymru yn ogystal â'r Cyngor Cymuned. Roedd y Wildfowler yn llawn â'r bwyd yn fendigedig. Mae'n braf i bobl gael cwrdd a'i gilydd gan nad oes llawer o gyfleodd i'r henoed gymdeithasu yn yr ardal.



Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig Ceredigion

Unwaith eto daeth aelodau Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig Ceredigion at ei gilydd ar y 23ain o Hydref, i anfon yr Wyn Hyrddod i ffrwd am y gaeaf yn ôl i Fferm Bodernmyd Isaf, Aberdaron. Daeth 17 o ffermwyr, gyda chyfanswm o 57 o wŷn ac fe'i beirnadwyd yn ôl yr arfer i ddewis yr oen hwrdd mwyaf addawol, gyda phob aelod yn cael cyfle i fotio. Dyfarnwyd oen hwrdd Dei Nutting yn gyntaf, gyda wŷn Enoc a Dewi Jenkins, Tyngraig yn dod yn ail a thrydydd. Cyflwynwyd Tarian Rhosgoch i Dei gan Gwilym Jenkins, Llywydd y Gymdeithas.



CFfi - Canu Carolau

Dyma griw o gantorion talentog Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch o dan arweiniad Rhian Evans, Glanyrafon a oedd ymhlith nifer bu wrthi yn canu a chasglu tuag at Apêl Ambiwylans Awyr Cymru ac Ymgyrch 'Defibrillator' Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.



Band Prês Ieuenctid Aberystwyth a'r Cylch

Bu Tomos Jenkins, Ynysgreigog, Bedwyr Siencyn, Tanyrallt, Carwyn Hughes a Bryn Dennis y ddau o Faes y Felin, Tal-ybont ymhlith y perfformwyr bu'n diddanu siopwyr Morrisons adeg y Nadolig.

Murlun Arad Goch

Bu aelodau o flwyddyn 9 Ysgol Penweddig, yn eu plith Ffion Nelves, Tre'r Ddôl a Robyn Tomos, Pentrebach, yn gweithio ar brosiect gyda chwmni Arad Goch a Ruth Jên yn ddiweddar. Treuliasant ddau ddiwrnod yn creu murlun i addurno mynedfa canolfan Arad Goch, gan ddwyn ysbrydoliaeth o sioeau a chynrychiadau'r cwmni dros y blynyddoedd. Galwch heibio i weld eu campwaith.



Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: http://cis.ceredigion.gov.uk
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292



Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Y Gair Olaf



Wel dyma ni, mae'r Nadolig wedi bod, y trimins wedi dod i lawr a'r arian Nadolig wedi'i wario yn y sêls (wel, mwy neu lai!). Dwi hyd yn oed wedi llwyddo i offren fy nhraethodau mewn pryd (ie, gwir mai arna i mae'r bai am benderfynu mynd i wneud cwrs ôl-radd, felly does gen i neb i'w feio nagoes)! Croesawyd hefyd flwyddyn newydd yn y modd arferol, yn llawn ffydd a gobaith. Mae'n debyg mai dyma'r amser i wneud fy adduned blwyddyn newydd. Y cwestiwn wrth gwrs ydi, pa adduned?

Wedi methu flwyddyn ar ôl blwyddyn i gadw f'addunedau, mae gen i ddilema eleni. Ydw i am geisio unwaith eto i gyflawni'r hyn a oedd yn fethiant llwyr y llynedd, neu a ydw i am gyhoeddi i'r byd fy mod i wir am lwyddo eleni? Mi faswn i'n licio meddwl mai 2013 fydd y flwyddyn lle bydda i'n codi am 6yb bob yn ail fore i fynd i redeg yn baratoad ar gyfer y farathon dwi am redeg fis Mehefin. Gwych hefyd fyddai agor baryn o siocled a llwyddo i ymwrthod â'r angen cynhenid yna i'w offren yn syth yn y fan a'r lle.

Na. Digon yw digon. Diflas a dibwynt ydi adduniadau tebyg, wedi'r cyfan, nid gwyrthiau mohonynt. Yr un fyddai! Fe fethais i'r llynedd ac mae'n debygol iawn mai'r un fydd y canlyniad eleni hefyd felly dyma roi taw ar y siarad gwag am farathon a dyma fi'n estyn am fy siocled... Hyfryd!

Hedydd Mai Phylip



Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774



**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

**Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim**

**James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111**

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Y Fari Lwyd Gyntaf

Stori a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer noson dathlu'r Hen Galan yn Nhal-y-bont gan Mihangel Morgan

Nawr, mwy na thebyg rych chi gyd yn moyn gwobd sut y dechreuodd y Fari Lwyd? Mae haneswyr ac athrawon wedi bod yn crafu'u pennau ynglŷn â'r cwestiwn hwn ers blyneddau. Mae sawl damcaniaeth i gael. Rhai yn gweud fod defod y Fari Lwyd yn mynd yn ôl i oes yr arth a'r blaidd pan oedd pobl yn addoli ceffylau fel duwiau, rhai yn gweud taw yn oes Victoria y ffurfiwyd y Fari Lwyd fel rydyn ni'n meddwl amdani. Na, na, maen nhw i gyd yn rong. Dwi'n gwobd wath taw hen wncwl wedodd yr hanes wrtho i a chas e'r hanes gan ei hen dadcu a hwnnw gan ei hen dadcu yntau, reit nôl i ddeg hen dadcu, a dyna'r un ddechreuodd y Fari Lwyd.

Ei enw oedd Llwyd Morgan. Nawr er bod gyda Llwyd wraig, Nanw, ac er bod gyda nhw lond tŷ o blant o bob seis ac oedran, rhai mowr, rhai canolig, ambell i bâr o efeilliaid, cryts a chrotes i lot o fabanod bech, bech, bech, doedd dim lot ots 'da'r Llwyd amdany'n nhw. Nage, ei hoff greadur yn y byd oedd ei hen gasg – gesiwc beth oedd ei henw – ie, Mari. Roedd Llwyd yn dwlu ar yr hen Fari ac yn mynd â hi i bob man gydag ef. Ond fyddai fe byth yn ei reidio hi, nage, cerdded wrth ei hochr hi wnâi ef bob cam. Weithiau byddai fe'n mynd am filltiroedd ond fyddai'r Llwyd byth yn mynd lan ar gefn yr hen gasg a'i marchogaeth fel dyn call, o nage, byth. Roedd 'dag e ormod o feddwl ohoni. Hyd yn oed yn y glaw fyddai fe byth yn ei reidio'ddi eithr byddai fe'n dodi'i got ei hun dros ei chefn i gadw'ddi'n sych. Byddai fe'n sibwrdd yn ei chlust ac yn siarad â hi fel person. Bob blwyddyn pan gâi Mari'i phen-blwydd byddai'r Llwyd yn canu pen-blwydd hapus iddi. Fyddai fe byth yn cofio pen-blwydd ei blant nac un Nanw nac yn canu pen-blwydd hapus iddyn nhw – 'Gormodd ohonyn nhw', meddai fe.

Wel, nawr te, wrth i ben-blwydd Mari yn ugain oed agosau roedd Llwyd yn moyn gwneud rhywbeth arbennig i nodi'r achlysur. Yn y pentre roedd 'na fenyw ifanc yn byw o'r enw Catrin oedd yn gallu pobi teisennau ysblennydd. Byddai pob un yn y pentre yn mynd ati'ddi i gael cacen briodas neu gacen Nadolig neu gacen ben-blwydd, wrth gwrs, ac roedd pob un yn ei nabod hi fel Citi Cacs. Felly dyma'r Llwyd yn mynd i'dd ei gweld hi.

'Citi,' meddai fe, 'wi moyn i ti neud teisen anferth ardderchog. Teisen ben-blwydd i'r gasg, Mari. A wi moyn i ti ddoti'i henw arni ac ucani cannyll. Wath bydd hi'n ucani o'd ti'n gwel' ym mis Ionawr 'ma'.

'Wel, wel,' meddai Citi Cacs, 'teisen i gasg. Wi ario'd wedi clywed sut beth.'

'Pam lai?' meddai'r Llwyd. Talodd am y gacen ac aeth Citi Cacs ati yn syth. Dyma hi'n cymysgu brawd a siwgr a menyn ac wyau a halen a mêl a chwrens a hufen a thriog du a mwy o wyau a mwy o fenyn a mwy o hufen dros y dyddiau nesa gan ei hamseru yn berffaith fel oedd y gacen ogoneddus yn barod ar gyfer pen-blwydd Mari ar ddechrau mis Ionawr. Roedd hi'n ddigon o ryfeddod gyda'r enw Mari arni wedi'i sgrifennu mewn llythrennau siwgr gwyn ac ugain cannyll, wrth gwrs.

A daeth pob un yn y pentre i'w gweld hi gan gynnwys Nanw a holl blant newynog, carpiog Llwyd Morgan. Bu'r Llwyd yn disgwyl ymlaen at y diwrnod hwn ers wythnosau, wath roedd e'n caru Mari. Canodd Llwyd a'r pentrefwyr ben-blwydd hapus – ac ie, wir, ymunodd ei blant truenus yn y gân, wath roedden nhw'n ddigon hoff o'r hen Fari a ddim yn dal unrhyw genfigen tuag ati'ddi er ei bod yn cael teisen ben-blwydd hyfryd a nhw'n cael dim. Yna, ar ôl iddo whwthu'r canhwylau ma's ar ran Mari torrodd y Llwyd dalp o'r deisen a'i ddodi ym mhen y gasg.

Symudodd Mari ei safnau lan a lawr cwpwl o weithiau. Yna stopiodd. Safodd ei llygaid yn fawr yn ei phen. Gwnaeth ei gorau i weryru ond ffaelu. Daeth swm ofnadw o'i llwnc. Yna – BAM! –

cwmpodd ar ei hochr chwith. Yn farw gorn. Mor farw â hoelen. 'Smo teisennau yn cytuno â cheffylau.

Distawrwydd.

Yna rhywyd yr awyr gan y Llwyd yn beichio wylo. Sgrechian crio wnaeth e fel baban roedd rhywun wedi dwgwyd ei ddymi. Mor fawr oedd ei alar fel na sylwodd ar ei blant yn helpu'u hunain i weddill y deisen.

Dros y dyddiau nesa, yn wir, dros yr wythnosau a'r misoedd ni allai neb gysuro'r hen Lwyd. Gwnaeth Nanw ei gorau drwy goginio'i hoff fwydydd a danteithion iddo. Ond prin y gallai f'yta dim. Yn wir roedd yn colli pwysau wrth i gorff yr hen Fari ddadfeilio'n sgerbwd yn yr ardd, wath roedd Llwyd yn pallu ei chladdu'ddi. Gwnâi'r blant bech eu gorau hefyd i godi'i galon drwy ddod i ddawnsio a chanu o flaen ei gadair yn y gegin ar bwys y tân.

'Llai o'r dawnsio a'r canu 'na! meddai'r Llwyd wrthyn nhw yn grac, 'Nece lle i ganu a wherthin yw hwn, mae rhywun wedi marw w!'

'Paid â bod yn gas wrthyn nhw,' meddai Nanw, 'maen nhw'n dy garu di cofia.'

'Tyn, tyn,' meddai'r Llwyd, 'ond

smo plant yr un peth â cheffyl neg y'n nhw.'

Ac felly y bu hi'r flwyddyn honno.

Yna pan ddaeth pen-blwydd yr hen gasg eto cymerodd Llwyd Morgan benglog Mari ac yn y tyllau lle roedd ei llygaid yn arfer bod dododd e ddarnau o wydr lliwgar ac yna addurnodd ei phen â rhubanau o bob lliw – cofiwch wnaeth yr hen Lwyd erioed brynu rhuban i'w wraig Nanw – ac â chlychau bach pert – cofiwch, wnaeth erioed roi cloch fach bert i'r un o'i blant – a gwisgodd y benglog am ei ben a lliain gwyn dros ei gorff i gyd. Galwodd ar ei fab hynaf, Jeremy, i wisgo'i got a'i het orau ac i'w dywys rownd y pentre o ddrws i ddrws y noson honno. Cafodd rhai o'r pentrefwyr eu dychryn am eu bywydau ond roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw yn gwybod taw'r hen Lwyd oedd yno wedi'i wisgo lan fel yr hen Fari. A chymerodd ambell un drueni arno a rhoisant ambell i geiniog i Jeremy i brynu bwyd i'w frodyr a'i chwiorydd ac i'w fam. A gwnaeth yr hen Lwyd yr un peth bob blwyddyn am weddill ei oes er cof am yr hen Fari. Ac fel'n a y dechreuodd defod y Fari Lwyd.

Mihangel Morgan

CHWARAEON



Lwcus iawn!

Enillodd Glain Llwyd grys a phêl rygbi wedi eu arwyddo gan dîm rygbi Cymru mewn cystadleuaeth arbennig ar y rhaglen deledu 'Tag' ar S4C yn ddiweddar. Roedd Glain hefyd yn aelod o gast sioe Nadolig Canolfan y Celfyddydau 'Dreaming Beauty'- llongyfarchiadau iddi!



Cefnogi Cymuned

Cafodd Mike Putt, Maes y Deri ei gyflwyno a thystysgrif yn cydnabod ei gefnogaeth i gynllun chwarae cymunedol RAY CEREDIGION. Cynhelir y sesiynau yn y Cae Bach.



Tîm Tal-y-bont yn 1949. Pwy sydd am roi cynnig ar enwau rhain?

Tîm Pêl-Droed Tal-y-Bont, 1949-50

Wrth baratoi fy llyfyrnau ar hanes clybiau pêl-droed Borth a Threfeurig daeth cyfle yn ogystal i gasglu rhai manylion am dîm Tal-y-bont yn ystod tymor 1949-50. Tra roedd Trefeurig yn brwydro'n galed ac heb fawr iawn o lwyddiant yng ngwaelodion ail adran Cynghair Aberystwyth a'r Cylch, roedd Tal-y-bont yn cystadlu mewn safon dipyn uwch o bêl-droed yn yr adran gyntaf, ac yn dal eu tir yn gyfforddus ddigon yng nghanol y tabl ar ôl ennill dyrchafiad fel pencampwyr yr ail adran yn y tymor blaenorol. Yn ei tymor cyntaf yn y brif adran, enillwyd gan Dal-y-bont gyfanswm o 7 o gemau allan o 18, a llwyddwyd i gyflawni'r 'dwbl' dros dimau'r Borth a Phadarn United. Cafwyd dwy gêm gyfartal a rhyfeddol o gyffrous: 5-5 yn erbyn Bow Street a 6-6 yn erbyn *Turks* Trefechan!

Aberystwyth Rovers	18	14	1	3	80	31	29
Penparcau	18	11	4	2	65	28	27
Trefechan	18	12	2	4	66	35	26
YMCA	18	10	1	7	41	38	21
Bow Street	18	8	2	8	58	55	18
Tal-y-bont	18	7	2	9	64	75	16
Tregaron Turfs	18	7	1	10	49	45	15
British Rail	18	6	3	10	50	52	13
Borth United	18	4	2	12	28	71	10
Padarn United	18	1	1	16	31	97	3

Nodir yng nghofnodion y gynghrair am 1949-50 fod y bechgyn canlynol wedi'u cofrestru i glwb Tal-y-bont a bydd mwyafrif yr enwau hyn yn gyfarwydd iawn i ddarllenwyr *Papur Pawb*. Yn eu plith ceir nifer o chwaraewyr o ardal Tre-ddôl a Taliesin, ac mae hynny i'w briodoli, mae'n debyg, i fethiant Taliesin i gynnal tim yn nymhorau 1949-50 a 1950-51. Mae'n drist nodi bod nifer ohonynt bellach wedi ein gadael.

Cadman, Edward G., Tyrrel Place, Tal-y-bont
 Davies, John D. Ll., Glasfryn, Tal-y-bont
 Edwards, Eilir C., 2 James Street, Tal-y-bont
 Edwards, John Gordon, Brynafon, Tal-y-bont
 Evans, David Alun, Brynderw, Taliesin
 Francis, Gomer, Brynfa, Tal-y-bont
 Humphreys, K.C., Gwelfor, Taliesin
 James, David R., Bridgend, Tal-y-bont
 James, David R., Maesmor, Tal-y-bont
 Jenkins, John, 3 Pantycalch Street, Tal-y-bont
 Jones, Griffith Owen, 3 James Street, Tal-y-bont
 Jones, Kenneth (Ken), 5 North Road, Tre'r-ddôl
 Mathewson, G. A., Hen-hafod, Tre'r-ddôl
 Morris, John, Glenydd, Tal-y-bont
 Owens, David Tegwyn., Brodawl, Tal-y-bont
 Phillips, Merfyn, Glanclettwr, Taliesin
 Price, Glyndwr Morgan, 4 Wesley Terrace, Taliesin
 Pryce, Evan Hugh, Roman Cottage, Taliesin
 Roberts, Clifford, Brodawl, Taliesin
 Roberts, Eric, The Mill, Tre'r-ddôl
 Roberts, Gwilym, The Mill, Tre'r-ddôl
 Rowlands, David (Dafydd), 3 Wesley Terrace, Taliesin
 Rowlands, John W., Avondale, Derwenlas
 Rowlands, Robert (Bob), 3 Wesley Terrace, Taliesin
 Thomas, Aylwyn, Bryngoleu, Tal-y-bont
 Williams, Eric, Brynteg, Tal-y-bont

Richard E. Huws